



Cynaliadwyedd

Cam 1: Nodi'r angen am ddysgu

Cyd-destun dilys ar gyfer dysgu

Cwestiwn mawr / mater byd-eang / syniad mawr:

Mae cynaliadwyedd yn hollbwysig i warchod y blaned a'n hadnoddau naturiol cyfyngedig, fel dŵr, aer a phridd.

Pam mae'n bwysig i'n pobl ifanc ddysgu hyn:

- Mae ein hadnoddau naturiol yn gyfyngedig ac ni ellir eu hatgyflenwi.
- Er mwyn i ni oroesi, mae angen i ni fabwysiadu ymddygiadau sy'n rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Mae cynaliadwyedd yn lliniaru materion allweddol fel newid yn yr hinsawdd, llygredd a cholli bioamrywiaeth.
- Mae cynaliadwyedd yn ffactor allweddol wrth sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael mynediad at adnoddau naturiol hanfodol ac yn byw ar blaned iach.
- Rydym i gyd yn gyfrifol am reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Creu ystyr

Dealltwriaeth:

Dylai'r dysgwyr ddod i ddeall y canlynol:

- Gall gorddefnyddio adnoddau naturiol (pan fydd adnoddau'n cael eu defnyddio'n gyflymach nag y gellir eu hatgyflenwi) arwain at ddi-hysbyddu adnoddau naturiol, dirywiad amgylcheddol a pheri i rywogaethau ddiflannu.
- Wrth i'r boblogaeth ddynol gynyddu, mae maint yr adnoddau naturiol a ddefnyddiwn yn cynyddu.
- Mae cynnydd yn y boblogaeth yn arwain at fwy o ffermio a gweithgynhyrchu, gan arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnydd anghynaliadwy o ynni, a datgoedwigo.
- Nid yn unig y mae ymddygiadau cynaliadwy yn ffordd braf i wneud pethau, ond maent yn hyrwyddo cydbwysedd rhwng twf economaidd, cynhwysiant cymdeithasol a diogelu'r amgylchedd.
- Mae newid ymddygiad o blaid yr hinsawdd ac o blaid yr amgylchedd yn gyfrifoldeb i bawb ac yn allweddol i'n goroesiad.

Cysyniadau sylfaenol:

Bydd dealltwriaeth y dysgwyr yn seiliedig ar y canlynol:

- Gwasanaethau ecosystemau
- Newid yn yr hinsawdd
- Cydnerthedd
- Cymdeithas
- Ffyrdd o fyw
- Prynwriaeth
- Llygredd
- Achosion a chanlyniadau
- Effeithiau ar iechyd
- Bioamrywiaeth
- Systemau bwyd
- Systemau ynni
- Systemau trafnidiaeth
- Systemau economaidd



Cam 2: Pennu cynnydd

Gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol

Mae'r dysgwyr eisoes yn gwybod y canlynol:

Addysgwr i gofnodi yma

Mae'r dysgwyr eisoes yn gallu gwneud y canlynol:

Addysgwr i gofnodi yma

Mae'r dysgwyr eisoes yn deall y canlynol:

Addysgwr i gofnodi yma

Dibenion dysgu

Gall y dysgwyr ddod yn fwyfwy effeithiol drwy:

- Ymdrin â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.
- Adeiladu corff o wybodaeth a meddu ar y sgiliau i gysylltu a chymhwyso'r wybodaeth honno mewn gwahanol gyd-destunau.
- Meddwl yn greadigol i ail-fframio a datrys problemau.
- Wynebu a goresgyn her.
- Deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu.
- Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned.

Dysgu trosglwyddadwy

Gallai'r dysgwyr ddefnyddio beth maen nhw wedi'i ddysgu mewn cyd-destunau eraill drwy:

Addysgwr i gofnodi yma



Caffael gwybodaeth a sgiliau

Dylai'r dysgwyr ehangu a dyfnhau eu gwybodaeth am y canlynol:

- Cynaliadwyedd: beth ydyw?
- Sut yr ydym yn defnyddio adnoddau naturiol.
- Sut yr ydym yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Effeithiau gorddefnyddio.
- Sut y mae cynaliadwyedd yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Sut y mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn effeithio ar iechyd dynol.
- Sut y gall gweithredoedd dynol effeithio ar y cydberthnasau rhwng y byd naturiol a phobl.
- Ymddygiadau o blaid yr hinsawdd ac o blaid yr amgylchedd.

FfLIRh / FfCD / MDaPh:

Addysgwr i benderfynu ar y sgiliau i ganolbwyntio arnynt yn dibynnu ar anghenion y dysgwr

Cwestiynau hanfodol

Dylai'r myfyrwyr ystyried ac ailystyried y canlynol:

Cwestiynau ar lefel pwnc:

- Sut y mae'r ffordd yr ydym yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein cefnogi i addasu i effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur?
- Sut y mae gorddefnyddio adnoddau naturiol yn effeithio ar iechyd y blaned ac iechyd dynol?
- Pa effaith y mae cymdeithas a ffordd o fyw yn ei chael ar yr amgylchedd naturiol?
- Sut y dylai unigolion a chymdeithas weithredu i leihau eu heffaith ar y byd naturiol?

Cwestiynau ar lefel uned:

- Sut y gallwn ni leihau ein heffaith ar natur?
- Sut y mae atal ein cymdeithas a'n ffordd o fyw rhag gorddefnyddio adnoddau naturiol?
- Sut olwg sydd ar y dyfodol os na fyddwn ni'n newid ac os byddwn yn parhau i waethygu'r newid yn yr hinsawdd?
- Sut olwg fydd ar y dyfodol os byddwn ni'n gwneud newidiadau cadarnhaol, yn gweithredu'n gynaliadwy ac yn helpu natur i ffynnu?
- Sut y gallwn ni ddylanwadu ar ddatblygiad cynaliadwy, ymddygiad o blaid yr hinsawdd ac o blaid yr amgylchedd mewn eraill?



Cam 3: Dangos beth a ddysgwyd

Portffolio'r dysgwr	Nodau cynnydd	Tystiolaeth o ddysgu
<p>Gallai'r dysgwyr ddangos eu dealltwriaeth drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu a chofnodi data ar eu defnydd nhw neu ddefnydd eu teulu / lleoliad o adnoddau naturiol, cynhyrchion a gwasanaethau dros gyfnod penodol. • Llundio cynllun gweithredu i ddangos sut y gellid lleihau eu defnydd nhw neu ddefnydd eu teulu / lleoliad o'r adnoddau naturiol. • Sefydlu eu prosiect cynaliadwyedd eu hunain. • Ymchwilio i wybodaeth a data ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang. • Cyflwyno gwybodaeth am achosion a chanlyniadau o fethu â mabwysiadu ymddygiad cynaliadwy. • Cyflwyno gwybodaeth a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod nhw neu eu teulu / lleoliad yn cymryd y camau cynaliadwy gorau posib, i gynulleidfa ehangach. • Cymharu â gwledydd eraill sut y mae Cymru'n defnyddio ac yn rheoli ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. 	<p>Dylai'r dysgwyr wneud cynnydd yn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eu heffeithiolrwydd fel dysgwyr. • Ehangder a dyfnder eu gwybodaeth. • Eu dealltwriaeth o syniadau'r MDaPh. • Soffistigeiddrwydd eu sgiliau. • Eu gallu i drosglwyddo dealltwriaeth i gyd-destunau newydd. 	<p>Beth fydddech chi o bosib yn ei weld / ei glywed / ei ddarllen sy'n dangos cynnydd?</p> <div> <p>Addysgwr i gofnodi yma</p> </div>



Cam 4: Cynllun dysgu

Trosolwg o'r gweithgareddau dysgu (i'w bennu gan yr addysgwyr)	Ffocws dysgu (Caffael / Creu ystyr / Trosglwyddo)	Cynnydd yn y dyfodol (Sut ddylai'r dysgwyr gael eu datblygu nesaf?)
<p>Mae'r adnoddau hyn a'u gwybodaeth ategol ar gael ar ein tudalen we addysg ‘Cynaliadwyedd’.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynllun gweithgaredd – Sut allwn ni fyw'n gynaliadwy? Cynllun gweithgaredd – Gêm geirfa cynaliadwyedd Cynllun gweithgaredd – Beth yw eich ôl troed carbon? <p>Tudalennau gwe eraill a allai fod o ddiddordeb:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adnoddau – Argyfwng newid hinsawdd Cymru – amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud â datblygu cynaliadwy, addasu i newid yn yr hinsawdd, a lliniaru ei effeithiau. Adnoddau – Ynni gwyrdd – ymchwilio i'r defnydd o ynni a ffyrdd o fod yn fwy cynaliadwy. <p>Neu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal ymchwiliad i brynwriaeth foesegol. Cynnal archwiliad o ymddygiad cynaliadwy. Archwilio ymddygiad cynaliadwy diwydiannau a busnesau lleol. Nodi ac ymchwilio i ddylanwadyr cynaliadwyedd. Ymweld â menter, prosiect neu fusnes cynaliadwyedd lleol. Edrych ar reolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn eich awdurdod lleol a ledled Cymru. Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried y canlynol: Ydy rhanddeiliaid yng Nghymru yn creu amgylchedd cefnogol i sicrhau bod sectorau allweddol yn gallu ysgogi mesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd? 	<p>Caffael sgiliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu geirfa sy'n seiliedig ar ddatblygu cynaliadwy. Casglu data. <p>Gwybodaeth am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymddygiad defnyddwyr. Achos ac effaith, sut mae ein ffordd o fyw yn effeithio ar natur. Sut yr ydym yn rheoli ein systemau bwyd, ynni, gwastraff, trafnidiaeth a chyllid. <p>Cydblethu'r dysgu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio gwybodaeth a gasglwyd i lywio penderfyniadau yn y dyfodol i weithredu'n gynaliadwy. Dylanwadu ar eraill i ddatblygu ymddygiad cynaliadwy. <p>Trosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhesu byd-eang. Gostyngiad mewn bioamrywiaeth. Amaethyddiaeth. Adeiladu. Defnyddio ynni. 	<p>Mae angen i'r dysgwyr ehangu eu gwybodaeth am y canlynol:</p> <div data-bbox="1050 539 1481 1227"> <p>Addysgwyr i gofnodi yma</p> </div> <p>Mae angen i'r dysgwyr fod yn fwy medrus yn y canlynol:</p> <div data-bbox="1050 1330 1481 2101"> <p>Addysgwyr i gofnodi yma</p> </div>



I gynorthwyo dysgu pellach am gynaliadwyedd, beth am ymweld â safle fel un o'r canlynol?

- Cynhyrchydd ynni cynaliadwy lleol.
- Eich cyfleuster rheoli gwastraff lleol.
- Canolfan ailgylchu leol.
- Fferm leol.

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.
Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk, **0300 065 3000**